# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cartref Gofal Dan y Graig**

**Danygraig**
**Cydweli**
**SA17 4SW**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

20 Hydref 2022

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Cartref Gofal Dan y Graig

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Swanton Care and Community (Maesteilo Care Homes) Ltd a Swanton Care & Community Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 8 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 29 Mehefin 2022 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth hwn yw gweithio tuag at ddarparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb

Arolygiad â phwyslais penodol oedd hwn er mwyn ystyried meysydd y nodwyd yn flaenorol bod angen camau gweithredu â blaenoriaeth mewn perthynas â nhw. Gwnaethom ganolbwyntio ar themâu gofal a chymorth ac arweinyddiaeth a rheolaeth.

Gwelwyd gwelliannau yn yr holl feysydd y nodwyd bod angen camau gweithredu â blaenoriaeth mewn perthynas â nhw yn ystod yr arolygiad diwethaf. Roedd hyn yn cynnwys proses adolygu'r darparwr ar gyfer cynlluniau personol y bobl. Gwelwyd gwelliannau gyda phob aelod o'r staff bellach yn cael sesiynau goruchwylio unigol fel sy'n ofynnol ac arfarniadau blynyddol yn cael eu cynnal. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r cartref yn rheolaidd a chaiff adborth ei gasglu gan y bobl sy'n byw yn Dan y Graig, yn gweithio yno ac yn ymweld â'r cartref.

Gwelwyd gwelliannau i'r amgylchedd. Mae Dan y Graig yn gartrefol ac mae'r ardaloedd cymunedol yn hygyrch i'r bobl ac yn hwyluso eu llesiant.

## Llesiant

Caiff lleisiau'r bobl eu clywed a chaiff eu hamgylchiadau unigol eu hystyried. Cynhelir adolygiadau o gynlluniau personol y bobl o leiaf bob tri mis bellach a chaiff y bobl a'u cynrychiolwyr eu cefnogi i gymryd rhan yn y broses, gan gynnig llais i'r bobl. Gwelsom y bobl yn cymryd rhan yn y broses o adolygu eu cynlluniau personol a gwahoddiadau yn cael

eu hanfon at aelodau'r teulu. Lle nad oes gan y bobl gynrychiolydd, mae'r rheolwr wedi gwneud cais am eiriolwr annibynnol iddynt.

Rhoddir dewisiadau i'r bobl a chynhelir eu hurddas a'u preifatrwydd. Cyflwynwyd byrddau cyfathrebu newydd er mwyn helpu'r bobl i allu mynegi eu dewisiadau o ran deiet, gweithgareddau a'r drefn o ddydd i ddydd. Mae'r bobl yn cymryd rhan mewn gweithgareddau o'u dewis a gwelsom y staff yn dangos parch tuag atynt.

Mae'r darparwr yn agored ac yn dryloyw ac yn atgyfeirio achosion at asiantaethau fel asiantaethau diogelu pan fo angen. Mae'r staff yn cael hyfforddiant diogelu ac yn cael eu goruchwylio. Caiff prosesau disgyblu eu dilyn er mwyn diogelu'r bobl sy'n byw yn Dan y Graig.

## Gofal a Chymorth

Gan mai arolygiad â phwyslais penodol oedd hwn, nid ydym wedi ystyried y thema hon yn llawn.

Mae gwelliannau wedi cael eu gwneud i'r broses o adolygu'r cynlluniau personol. Mae'r bobl bellach yn cael cymorth i adolygu eu cynlluniau cymorth o leiaf bob tri mis ac yn cael cyfle i wahodd eu cynrychiolwyr/aelodau o'u teulu. Gwelsom luniau o'r bobl yn trafod eu cynlluniau cymorth â'u gweithiwr allweddol a'u llofnod i ddangos eu bod yn cytuno â chynnwys eu cynlluniau. Lle nad oes cynrychiolydd ar gael i fynychu sesiynau adolygu, caiff hyn ei gofnodi a gwneir cais am eiriolwyr annibynnol i helpu'r unigolion.

Mae'r lefelau staffio yn gyson er mwyn sicrhau y caiff canlyniadau'r bobl eu cyflawni. Mae gan y darparwr gynllun recriwio parhaus ar waith. Yn y cyfamser, mae'r darparwr yn parhau i gyflogi staff asiantaeth y mae'r cartref a'r bobl sy'n byw yno yn eu hadnabod. Gwelwyd bod aelod o'r staff yn helpu'r bobl fel y nodir yn eu cynlluniau cymorth.

## Yr Amgylchedd

Gan mai arolygiad â phwyslais penodol oedd hwn, nid ydym wedi ystyried y thema hon yn llawn.

Mae amgylchedd y cartref yn hamddenol ac yn dawel. Cwblhawyd gwaith addurno pellach gan gynnwys gwaith ailbaentio a diweddaru dodrefn ers yr arolygiad diwethaf.

Gwelsom y bobl yn mwynhau amser yn yr ardaloedd cymunedol unigol, gan gynnwys un person yn mwynhau rhywfaint o amser tawel yn yr ystafell synhwyraidd. Roedd yr amgylchedd yn addas i'r bobl ymlacio yn yr ystafell hon. Gwelsom berson arall yn gwylio

ffilm yn yr ystafell ffilmiau a oedd newydd ei phaentio. Caiff preifatrwydd ac amser tawel y

**Crynodeb o'r achos o ddiffyg cydymffurfio**

bobl eu parchu. Gwelwyd person arall yn treulio amser yn yr awyr agored gydag aelod o'r staff.

Roedd y bobl wedi cymryd rhan mewn sesiynau crefft er mwyn gwneud addurniadau Calan Gaeaf ar gyfer eu cartref. Roedd y thema i'w gweld y tu allan i'r cartref hefyd.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Gan mai arolygiad â phwyslais penodol oedd hwn, nid ydym wedi ystyried y thema hon yn llawn.

Ers yr arolygiad diwethaf, gwelwyd gwelliannau ac mae sesiynau goruchwylio unigol yn cael eu cynnal ac arfarniadau yn cael eu cwblhau. Mae pob aelod o'r staff wedi cael o leiaf un sesiwn goruchwylio unigol ers yr arolygiad diwethaf, sy'n golygu bod pob aelod o'r staff bellach yn cael sesiwn goruchwylio bob chwarter. Mae pob aelod o'r staff sydd wedi bod yn gweithio yn y gwasanaeth ers 12 mis neu fwy wedi cael arfarniad blynyddol. Rhoddwyd system cyfeillio/mentora newydd ar waith i aelodau newydd o'r staff i'w helpu i ymgymryd â'u rôl.

Mae gwiriadau cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gael ar gyfer pob aelod o'r staff ac mae'r rheolwr yn goruchwylio'r broses hon gyda chymorth adran adnoddau dynol y sefydliad.

Mae'r Unigolyn Cyfrifol wedi ymweld â'r gwasanaeth sawl gwaith ers yr arolygiad diwethaf. Yn ei adroddiadau ar yr ymweliadau, gallwn weld ymdrechion i gael gwybod barn y bobl sy'n gweithio yn Dan y Graig ac sy'n byw yn Dan y Graig a rhywfaint o waith ymgynghori â chynrychiolwyr y bobl.
Yn gyffredinol, gwelwyd gwelliannau a chydymffurfiaeth a dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo bod yr Unigolyn Cyfrifol, y rheolwr a'r sefydliad yn eu cefnogi'n dda iawn ar y cyfan.

Roedd adborth gan y staff yn cynnwys; “*Rwy'n dwli yma – mae'n gartref hyfryd i weithio ynddo”* ac “*Rwy'n cael cymorth i ddatblygu”.*

Dywedodd yr Unigolyn Cyfrifol wrthym fod yr adroddiad blaenorol ar yr adolygiad o ansawdd y gofal wedi cael ei ddiwygio i sicrhau y caiff cyfrinachedd ei gynnal a bod yr adroddiad nesaf wrthi'n cael ei lunio.

| Statws | Ystyr pob un |
|---|---|
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad. |
| **Wedi ei adolygu** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn yr adolygiad hwn ond ni chafodd ei chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb ei gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn yr adolygiad hwn ond ni chafodd ei chyflawni. |
| **Wedi ei gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn yr adolygiad hwn ac fe'i cyflawnwyd. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfiaeth â'r rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a / neu risg i'w llesiant eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad | Dd/G |

Pan rydym yn canfod achos o ddiffyg cydymffurfio â'r rheoliadau ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn eu hamlygu fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu er mwyn unioni hyn, a byddwn yn ei ystyried eto yn ystod yr arolygiad nesaf. Os bydd y darparwyr wedi methu â chyflawni'r gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Meysydd I'w Gwella |
|---|

| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
|---|---|---|
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad | Dd/G |

**Dyddiad Cyhoeddi** Insert_Report_Published_Actual_Donot_Delete